**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, lleg o Fedi, 2018 am 7:30 y.h.**

**Yn Bresennol -** Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming(SP), Sara Williams (SW). Olwen Roberts (OR), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ), Emlyn Hughes (EH),Ynyr Ellis (YE) a'r Cyng. Aled Jones (AJ).

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd -** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.
2. **Ymddiheuriadau –** Dim
3. **Datgan Diddordeb –** Gwilym Williams yng nghyd destun eitem 10.3.
4. **Diweddariadau asedau –** Gan mai ychydig o dyfiant sydd ym mynwent Pistyll ar hyn o bryd cynigiodd GW nad oes angen ail doriad. Eiliodd WJ a chytunodd pawb. *GW i adael i'r contractwr wybod.*
5. **Cofnodion**

*5.1* ***Cyflwyno a mabwysiadu -*** Cynigodd GW fod cofnodion y 10fed Gorffennaf, 2018 yn gywir. Eiliodd JO ac fe'u mabwysiadwyd.

*5.2* ***Materion yn codi***

*5.2.1* ***Wal y ffordd i Nant Gwrtheyrn –*** Adroddodd SP fod grwp o randalwyr wedi cyfarfod o dan gadeiryddiaeth AJ. Ystyriwyd tri opsiwn, sef trwsio'r wal yn y manau bler, ei thynnu oddi yna'n gyfangwbwl neu ei hadnewyddu'n iawn. Deilliant y drafodaeth oedd fod SP i sicrhau pris ar gyfer y tri opsiwn fel y gall y grwp ystyried y ffordd ymlaen. Consensws y Cyngor Cymuned oedd mai rôl gydlynol yn unig sydd ganddo yn achos y wal. *SP i adrodd ar gynnydd.*

*5.2.2* **Mynwent Pistyll –** Adroddodd LJ nad yw'r Parch Richard Wood wedi derbyn ymateb gan yr Eglwys yn ganolog ynglyn a'r cynnig i atgyweirio eu rhan hwy o wal y fynwent. *LJ i ddilyn i fyny ymhellach gan fod y Cyngor yn awyddus i'r Eglwys beidio colli allan ar y cynnig. Yna GJ i gael sgwrs â'r cynigydd, os yn berthnasol.*
Nododd GW iddo ddod ar draws dull mwy amgylcheddol gyfeillgar i reoli'r tyfiant yn y fynwent. *GW i roi'r manylion i'r Clerc fel y gellir ei ystyried ymhellach.*

*5.2.3* **Cerrig Milltir Plwyf Pistyll –** *Y Clerc i fynd i'r Archifdy yng Nghaernarfon i ymchwilio.*

*5.2.4* **Biniau Halen –** Penderfynodd y Cyngor Cymuned ofyn i'r Cyngor Sir osod bin graean/halen (a'i lenwi) o'r ochr isaf i'r ciosg cyn i'r rhiw fynd i lawr o Stâd Bron y Foel, Pistyll ar yr un amodau a'r biniau halen sydd yn y ward ar hyn o bryd. *Y Clerc i weithredu*.

*5.2.5* **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Adroddodd y Clerc fod cynrychiolydd o Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir ar gael i fynychu cynfarfod Hydref neu Tachwedd. Nododd nad yw 'Go Safe' mewn sefyllfa i yrru cynrychiolydd i gyfarfod o'r Cyngor a'u bod yn awgrymu fod Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu'n lleol yn cael gwahoddiad. Mae'r Clerc yn disgwyl cadarnhad gan y Swyddog Cefnogi Cymuned lleol. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gofyn i'r *Clerc gysylltu ymhellach â'r Heddlu lleol i ofyn iddynt yrru Swyddog ar lefel uwch sydd, o ddewis, yn arbenigo mewn trafnidiaeth i'r cyfarfod y mae'r Cyngor yn ceisio'i drefnu.*

*5.2.6* **Dŵr ar lôn Rhosydd -**. *Y Clerc i ddilyn i fyny eto.*

*5.2.7* **Crac yn y Bont –** Mewn llaw gan y Cyngor Sir.

*6.* **Canolfan Llithfaen**
Trwydded Barcio Ty'r Ysgol **-** Adroddodd SP ei bod yn trafod yr opsiynau o ran y ffordd ymlaen ac Adran Gyfreithiol ac Eiddo'r Cyngor Sir.

*7.* **Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn –** *SP i adrodd yn ôl i'r Cyngor pan y bydd cynnydd yn yr ymchwil.*

*8.* **Y Clerc –** Ar ôl dilyn proses gadarn yn cynnwys cyfweliad â chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned cynigiodd LJ fod y Cyngor yn cynnig swydd y Clerc i Gillian Thomas. Eiliodd SW a chytunodd pawb. *LJ i hysbysu'r ymgeisydd.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

**9.** **Rhaglen Waith Reolaethol –** Y Clerc i'w rhannu gyda'i olynydd.

**10.** **Ceisiadau Cynllunio –**

**10.1** Cais Rhif C18/0674/43/YA: Traciau Amaethyddol, Foel Llwynffynnon – Rhaid oedd ymateb i'r cais yma cyn y cyfarfod ac wedi ymgynghori â'r Aelodau nodwyd 'Nid oes gwrthwynebiad wedi'i ddatgan gan y Cynghorwyr i'r cais hwn'.

**10.2** Cais Rhif C18/0678/43/HY: Gosod 2 arwydd dros dro, Fferm Pistyll, Pistyll – Rhaid oedd ymateb i'r cais yma cyn y cyfarfod ac wedi ymgynghori â'r Aelodau nodwyd 'Nid oes gwrthwynebiad wedi'i ddatgan gan y Cynghorwyr i'r cais hwn'.

**10.3** Cais Rhif C18/0614/43/LL: Amrywiol ym Mharc Carafanau a Chwrs Golff Gwynus – Cynigiodd LJ fod y Cyngor yn nodi ' Dim gwrthwynebiad i'r cais ond mae pryder am addasrwydd y ffordd sy'n arwain at y Parc.' Eiliodd OR a chytunodd pawb. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*
(Ni chymerodd GW ran ym mhenderfyniad y Cyngor ynglyn a'r cais yma)

**11.** **Materion Lleol a gyflwynwyd o flaenllaw –** Dim.

**12.** **Gohebiaeth**

**12.1** **Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd -** Nodwyd fod gan y Cyngor Cymuned gopi caled.

**12.2** **Adroddiad Blynyddol Grwp Cynefin -** Nodwyd fod gan y Cyngor Cymuned gopi caled.

**12.3** **Cylchlythyr Adolygiad Cynghorau Tref a Chymuned -** Wedi'i gylchredeg o flaen llaw. Dim sylw.

**12.4** **Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach** – Wedi'i gylchredeg o flaen llaw. Dim sylw.

**12.5** **Papurau cyfarfod Un Llais Cymru y 12fed o Fedi -** Daethpwyd a hwy i sylw'r Cyngor.

**12.6** **2 Fwletin Newyddion Un Llais Cymru -** Wedi'u cylchredeg o flaen llaw. Dim sylw.

**13.** **Cyllid**

**13.1** **Adolygiad Chwarterol –** i gymryd lle Hydref, 2018.

**13.2** **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf -** Taliadau: £213.17 Cyflog a chostau gwein. Clerc (Gorffennaf), £280.00 Osian Wms. (Trwsio Wal Mynwent Pistyll), £180.00 A Hughes Jones, TWE a £6.00 y Ffynnon (Hysb. Clerc). Derbyniadau £4250.00 (Praeseb) . Balansau - Cyfredol: £9432.01Cr/Cadw: £2145.12Cr

**13.3** **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -** £320.00 – Cyflog Clerc, £20.46 - Costau Gweinyddol terfynol y Clerc, £110.40 – Cyngor Gwynedd (Llenwi Biniau Halen), £6.00 - Y Ffynnon (hysbysebu swydd y Clerc) a £35.00 - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 9fed o Hydref, 2018 am 7:30 y.h.**

*Ar ô y cyfarfod gofynwyd os y byddai modd i'r cyfarfodydd gael eu cynnal am 7pm o hyn ymlaen. Nid oedd gwrthwynebiad i hyn.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347